

Cyfuno

Creu cyfleoedd drwy ddiwylliant

Cyflawni yn 2017-18



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



#CyfunoFusion

<http://llyw.cymru/cyfuno>

Cynnwys

3

Cyflwyniad

4

Cyd-destun

5

Cynnydd hyd yma

6

Datblygu'r rhaglen Cyfuno

7

Atodiad 1: Rhaglenni Grantiau Her Cyfuno yn 2017-18

10

Atodiad 2: saith Dangosydd y Rhaglen Cyfuno

Cyflwyniad

Mae'r rôl bwerus y gall diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau ei chwarae o ran llwyddo i drawsnewid cyfleoedd bywyd unigolion mewn cymunedau difreintiedig yn cael ei hatgyfnerthu gan y rhaglen Cyfuno: Creu Cyfleoedd trwy Ddiwylliant.

Mae'r rhaglen Cyfuno yn ymyriad arloesol, cost isel sy'n hyrwyddo cydweithredu er mwyn diwallu anghenion pobl Cymru yn well. Mae'n cysoni ac yn canolbwyntio adnoddau, gwasanaethau a rhaglenni o amrywiaeth eang o sectorau a sefydliadau, gan eu galluogi i roi cymorth uniongyrchol i unigolion a chymunedau, yn enwedig y rhai sydd o dan anfantais

Mae'r rhaglen Cyfuno yn bartneriaeth gref rhwng cyrff diwylliannol, cyrff cymunedol a chyrff eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn hwyluso'r rhaglen drwy ddarparu fframwaith cyffredinol y gall cyrff ei ddefnyddio i gyfrannu at agenda a rennir. Nid yw'r defnydd hwn o ddiwylliant wedi'i annog, ei gefnogi na'i werthuso yn y ffordd strategol hon o'r blaen.

Mae'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD) o fewn Llywodraeth Cymru wedi arwain y rhaglen Cyfuno ers 2015, gan adeiladu ar yr argymhellion a nodwyd yn adroddiad Andrews, sef Diwylliant a Thlodi¹.

Yn dilyn y cyfnod peilot llwyddiannus, mae MALD wedi cyflwyno rhaglen Grantiau Her newydd i ddatblygu Cyfuno'n ymhellach. Bydd Cyrff Arwain yn cyflwyno rhaglenni strategol gan ddefnyddio diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau er mwyn cefnogi cyflogadwyedd, gweithgarwch grymuso, y blynyddoedd cynnar a dysgu fel teulu, ac iechyd a lles – i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

Rydym hefyd yn datblygu nifer o fentrau strategol gan gynnwys gwirfoddoli, lleoliadau hyfforddi, grymuso a'r blynyddoedd cynnar er mwyn helpu i gyflawni amcanion ehangach y rhaglen Cyfuno.



© Cyngor Sir Caerfyrddin

1 <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>


Cyd-destun

Mae'r rhaglen yn ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol² ac mae'n arbennig o berthnasol i'r nodau o greu *Cymru Ffyniannus*, *Cymru o Gymunedau Cydlynus* a *Chymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu*.

Bydd y rhaglen Cyfuno yn galluogi'r sector diwylliannol i gyfrannu at sawl amcan lefel uchel yn Symud Cymru Ymlaen 2016-2021³, gan gynnwys cefnogi gwirfoddoli, cyflogadwyedd, cefnogi pobl ifanc a theuluoedd a gwella sgiliau digidol.

Mae Golau yn y Gwyll⁴ yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer diwylliant yng Nghymru. Mae'n cyfleu sut y gall diwylliant, drwy'r rhaglen Cyfuno, rymuso pobl a datblygu hyder sgiliau a chyflogadwyedd.

Mae'r fframwaith ar gyfer y rhaglen Cyfuno yn seiliedig ar adroddiad y Farwnes Andrews Diwylliant a Thlodi⁵, a heriodd sefydliadau i gydweithio er mwyn sicrhau newid trawsffurfiol. Dadleuodd yr adroddiad y dylai manteision cyfranogi mewn diwylliant fod ar gael i bawb, a bod angen gwneud ymdrech benodol i gyrraedd y rhai yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.



© Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen



© Cyngor Celfyddydau Cymru



© Amgueddfa Stori Caerdydd

2 <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

3 <http://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf>

4 <http://gov.wales/docs/drah/publications/161214-a-vision-for-culture-in-wales-cy.pdf>

5 <http://gov.wales/docs/drah/publications/140313-culture-and-poverty-cy.pdf>

Cynnydd hyd yma

Dan arweiniad MALD, mae camau cydgysylltiedig wedi'u cymryd i weithredu'r argymhellion yn adroddiad Andrews. Mae Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol strategol wedi'i ffurfio er mwyn ysgogi newid mewn amrywiaeth eang o adrannau o fewn Llywodraeth Cymru, cyrff a noddir a sefydliadau diwylliannol a chymunedol ledled Cymru.

Ers 2015, mae MALD wedi cefnogi partneriaethau Cyfuno, sy'n glymbleidiau o gyrff diwylliannol a chymunedol sy'n darparu amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol sy'n cefnogi amcanion gwrthdlodi yn uniongyrchol. Mae partneriaid yn creu cyfleoedd gwirfoddoli, dysgu achrededig a llwybrau i gyflogaeth, yn ogystal â gweithgareddau y bwriedir iddynt gynyddu hyder a lefelau cyfranogiad. Mae MALD yn cynnig amrywiaeth o gymorth ymarferol, gan

gynnwys hyfforddiant, adnoddau a broceru cysylltiadau â phartneriaid newydd.

Rhwng 2015 a 2017, cymerodd mwy na 5,000 o bobl ran mewn gweithgareddau o dan y rhaglen Cyfuno, a oedd yn cynnwys mwy na 150 o bartneriaid ar draws 10 ardal. Buom yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol, safleoedd treftadaeth, theatrau, ysgolion, amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd, ymhlith eraill, er mwyn helpu mwy na 100 o bobl i ennill cymhwyster, a gwnaethom greu mwy na 300 o gyfleoedd gwirfoddoli a helpu mwy na 1,500 o ddisgyblion i wneud yn well yn yr ysgol.

Cyhoeddwyd adroddiad gwerthuso⁶ cynhwysfawr ym mis Mawrth 2016. Dengys yr Adroddiad a gwaith gwerthuso pellach fod diwylliant yn cael ei ystyried fwyfwy yn adnodd pwerus i fynd i'r afael ag anfantais ac mae cyrff diwylliannol bellach yn cydweithio'n fwy effeithiol.



© Jake Morley



© Amgueddfa Cymru



© Cerdd Gymunedol Cymru

Datblygu'r rhaglen Cyfuno

Yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cyfnod peilot llwyddiannus, mae MALD yn parhau â'r rhaglen Cyfuno ac yn gwneud rhaglen Grantiau Her newydd yn rhan ohoni. Bydd cyfranogwyr yn cyflwyno rhaglenni strategol gam ddefnyddio diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau er mwyn helpu i gyflawni saith dangosydd y rhaglen Cyfuno, gan gynnwys cyflogadwyedd, y blynyddoedd cynnar a dysgu fel teulu, addysg ac iechyd a lles, wedi'u targedu'n uniongyrchol at y rhai sydd â'r angen mwyaf.

Bydd cyrff arweiniol yn rheoli consortiwm eang o gyrff diwylliannol a chymunedol yn eu hardal. Bydd pob un yn gweithio gydag amrywiaeth eang o gyrff diwylliannol, gan gynnwys sefydliadau celfyddydol, amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd, safleoedd treftadaeth a llawer o gyrff eraill. Byddant hefyd yn datblygu partneriaethau ag amrywiaeth o sefydliadau eraill, gan gynnwys cyrff gwirfoddoli, cymdeithasau tai, gwasanaethau iechyd, ysgolion, asiantaethau cymunedol, rhaglenni cefnogi cyflogadwyedd gan gynnwys Cymunedau am Waith, a rhaglen Dechrau'n Deg ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

Bydd cyrff arwain yn creu cydgysylltwyr Cyfuno penodedig, er mwyn gallu creu rhaglenni a phartneriaethau mwy effeithiol a chysylltu sefydliadau yn well.

Ceir rhestr o'r sefydliadau sydd ynghlwm â'r rhaglen yn 2017-19, a throsolwg o'u rhaglenni, yn Atodiad 1.

Rhestrir saith Dangosydd y rhaglen Cyfuno yn Atodiad 2.

Yn 2017-18, yn ogystal â gweithredu'r rhaglen Grant Her, byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i sawl blaenoriaeth allweddol y mae angen gweithredu yn eu cylch yn genedlaethol.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Datblygu rhaglen o leoliadau hyfforddi o ansawdd uchel sydd wedi'i thargedu at gymunedau ac unigolion o dan anfantais, gan weithio gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri a Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
- Datblygu rhaglenni diwylliannol pwerus i bobl ifanc, er mwyn dileu rhwystrau i ddiwylliant, grymuso mwy o bobl a gwella sgiliau, gan weithio gyda phartneriaid gan gynnwys Kids in Museums a chynllun Hyrwyddwyr Ifanc Cyngor Celfyddydau Cymru
- Helpu i sicrhau newid sylweddol ym maes gwirfoddoli diwylliannol drwy helpu'r sector diwylliannol i gynyddu cyfleoedd ac ehangu mynediad i rhaglenni gwirfoddoli, mewn partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Gweithio gydag adrannau eraill o fewn Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y sector diwylliannol yn chwarae mwy o rôl o ran helpu i gyflawni ein blaenoriaethau economaidd a chymdeithasol sy'n ymwneud â chyflogadwyedd, iechyd, addysg a chymunedau cydlynus
- Deall yr effaith y mae ein gwaith yn ei chael drwy raglen werthuso benodol, rhannu arfer gorau a hyrwyddo manteision cyfranogiad diwylliannol yn eang.

Atodiad 1: Rhaglenni Grantiau Her Cyfuno yn 2017-18

Sefydliad Arweiniol	Amlinelliad	Grant 2017-18
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Fel partneriaeth arloesol ar y cyd rhwng awdurdodau lleol Torfaen a Chaerffili, bydd Torfaen yn cyflogi cydgysylltydd Cyfuno llawn amser i ddarparu dull penodol o roi cymorth i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed ac sydd wedi ymddieithrio fwyaf. Bydd y rhaglen yn defnyddio data Mynegai Amffifadedd Lluosog Cymru (MALIC) i dargedu unigolion a chymunedau yn bennaf yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf presennol y ddau awdurdod. Bydd y rhaglen yn defnyddio clymblaid eang o bartneriaid diwylliannol a threftadaeth, a sefydlwyd yn ystod y cyfnod peilot. Bydd y broses gyflawni yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth drwy wirfoddoli a lleoliadau gwaith, a chefnogi cyrhaeddiad addysgol, y Blynyddoedd Cynnar, ac iechyd a llesiant. Caiff achredu ei ymgorffori mewn gweithgareddau drwy Wobr y Celfyddydau a chynlluniau achredu eraill.	£39,489
Amgueddfa Stori Caerdydd	Bydd Amgueddfa Stori Caerdydd, a weithredir gan Ddinas a Sir Caerdydd, yn arwain amrywiaeth eang o bartneriaid diwylliannol a threftadaeth genedlaethol a lleol ac yn cyflogi cydgysylltydd Cyfuno rhan-amser i reoli'r bartneriaeth. Bydd y rhaglen yn gweithio'n agos â nifer o raglenni sy'n bodoli eisoes gan gynnwys Dechrau'n Deg i ddatblygu rhaglen gyfoethog o weithgarwch, gan gynnig cyfleoedd dysgu achrededig, cyfleoedd i ddatblygu sgiliau, prentisiaethau, cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith, gweithgareddau llawn hwyl a gweithgareddau ystyrion i blant, teuluoedd, pobl ifanc a'r henoed. Caiff y cyfleoedd hyn eu targedu at unigolion sy'n byw yn Arc Ddeheuol Caerdydd a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf presennol.	£25,000

Sefydliad Arweiniol	Amlinelliad	Grant 2017-18
Dinas a Sir Abertawe	Gan adeiladu ar lwyddiant Partneriaeth Dysgu Creadigol Abertawe, bydd Dinas a Sir Abertawe yn cyflogi cydgysylltydd cymunedol diwylliannol i hwyluso a datblygu gwaith arloesol ledled y ddinas. Bydd partneriaeth gref o ddarparwyr diwylliannol a threftadaeth yn cydblethu'n agos â rhaglenni sy'n bodoli eisoes gan gynnwys Dechrau'n Deg a Cymunedau am Waith er mwyn targedu gweithgarwch sy'n ennyn diddordeb pobl ac yn eu cefnogi fel rhan o'u dilyniant a'u cyflogadwyedd gwell. Ymhlith yr allbynnau allweddol bydd mwy o gyfleoedd gwirfoddoli, cymwysterau a dysgu achrededig.	£25,000
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Gan adeiladu ar gyfnod peilot y rhaglen Cyfuno pan sefydlwyd rhwydwaith diwylliannol a chymunedol, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cyflogi cydgysylltydd Cyfuno rhan-amser. Bydd y rhaglen yn atgyfnerthu partneriaethau diwylliannol, gan weithio gyda chyrff lleol a chenedlaethol, er mwyn sicrhau y gall trigolion o sawl ardal ddifreintiedig yn y Sir fanteisio ar ddarpariaeth ddiwylliannol. Bydd ffocws cadarn ar gefnogi cyflogadwyedd a chyflogaeth drwy wirfoddoli, dysgu achrededig a gwella sgiliau.	£18,585
Cartrefi Castell-nedd Port Talbot	Bydd y rhaglen hon, sy'n gynnig arloesol gan Cartrefi Castell-nedd Port Talbot, yn cyflogi cydgysylltydd Cyfuno lleol i ddatblygu cysylltiadau a pherthnasau sy'n bodoli eisoes gan ddefnyddio'r celfyddydau a diwylliant i gefnogi dysgu a chreu llwybrau i gyflogaeth. Gan weithio gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys ysgol newydd Bae Baglan a chyrff diwylliannol lleol a chenedlaethol, bydd y rhaglen yn defnyddio creadigrwydd a diwylliant fel ffordd o ennyn diddordeb gwella sgiliau a chyrhaeddiad pobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd ffocws cadarn ar hyrwyddo dilyniant a llwybrau mynediad i'r diwydiant ffilm sy'n datblygu yng Nghastell-nedd Port Talbot a ledled De Cymru.	£25,000

Sefydliad Arweiniol

Amlinelliad

Grant 2017-18

Cyngor Gwynedd

Bydd Cyngor Gwynedd yn cyflogi cydgysylltydd Cyfuno am 4 diwrnod yr wythnos i gyflwyno rhaglen o weithgareddau gan weithio gyda phartneriaid gan gynnwys Storiell, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gwasanaeth llyfrgelloedd Gwynedd, Pontio, Cadw, Amgueddfa Lechi Cymru ac eraill. Bydd yn canolbwyntio ar ymyriadau wedi'u targedu i gefnogi pobl ifanc a theuluoedd, sy'n rhaglen a sefydlwyd yn gadarn yn y cyfnod peilot, a datblygu dulliau arloesol i gynyddu lefelau gwirfoddoli a chefnogi llythrennedd a'r blynyddoedd cynnar. Bydd gweithgarwch yn canolbwyntio'n bennaf ar y Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf presennol yn ogystal ag ardaloedd eraill a nodwyd drwy Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

£25,000

Cyngor Sir
Gaerfyrddin

Bydd Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cyflogi cydgysylltydd Cyfuno i ddatblygu'r bartneriaeth Cyfuno bresennol ymhellach, gan gyflawni amrywiaeth eang o brosiectau a gweithgareddau. Bydd amrywiaeth eang o bartneriaid diwylliannol a phartneriaid eraill, gan gynnwys chwaraeon a hamdden, yn integreiddio darpariaeth â rhaglenni sy'n bodoli eisoes gan gynnwys Dechrau'n Deg, Cymunedau am Waith ac Esgyn. Bydd gweithgareddau, a fydd yn canolbwyntio ar Lanelli ac ardaloedd eraill sydd o dan anfantais economaidd, yn anelu at gynyddu cyfleoedd i unigolion wirfoddoli, cael lleoliadau gwaith, a chael hyfforddiant ac ennill profiad a chymwysterau i'w helpu i gael gwaith.

£24,500

Cyngor Dinas
Casnewydd

Bydd Dinas Casnewydd yn cyflogi cydlynnydd Cyfuno rhan-amser i ddatblygu rhaglen sy'n canolbwyntio ar leihau rhwystrau i fanteisio ar ddiwylliant, gan weithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid diwylliannol a threftadaeth gan gynnwys Amgueddfa Casnewydd, Cadw, Amgueddfa Cymru, It's my Shout, Casgliad y Werin ac Ymddiriedolaeth y Siartwyr. Bydd y gweithgareddau yn cael eu cysylltu'n agos â rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymunedau i Waith yn ogystal â landlordiaid cymdeithasol. Byddant yn cynnig cyfleoedd newydd i bobl ifanc gymryd rhan mewn diwylliant a threftadaeth i gefnogi dysgu, creu lleoliadau gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli er mwyn gwella cyflogadwyedd, hyrwyddo cynhwysiant digidol, a defnyddio diwylliant fel ffordd o gefnogi iechyd a lles corfforol a meddyliol.

£24,933

Atodiad 2: saith Dangosydd y Rhaglen Cyfuno

Dangosydd	Diffiniad
C1: Cefnogi'r Blynyddoedd Cynnar a Dysgu fel Teulu	Mae gweithgareddau diwylliannol strwythuredig yn hybu dysgu a datblygu o enedigaeth hyd at oedran ysgol. Fe'u cynhelir gan ystod o bartneriaid cymunedol a phartneriaid eraill, gan gynnwys darparwyr gofal plant, rhaglenni megis Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, ac ysgolion. Gallai'r canlyniadau fod o fudd i blant a rhieni/gofalwyr. Gallai enghreifftiau gynnwys sesiynau mewn canolfannau Dechrau'n Deg a chanolfannau diwylliannol, cynlluniau i annog rhieni a gofalwyr i fod yn fwy parod i ddarllen gyda phlant, defnyddio gweithgareddau diwylliannol fel rhan o'r adnodd Llofnod Dysgu fel Teulu, a sesiynau dysgu fel teulu penodol mewn canolfannau diwylliannol neu yn y gymuned.
C2: Ennill cymhwyster	Mae'r cleient wedi ennill cymhwyster cydnabyddedig drwy gymryd rhan yn yr hyn a drefnwyd gan y corff diwylliannol, mae'r cleient yn ennill achrediad neu gymhwyster cydnabyddedig sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gweithgaredd y bwriedir iddo ddatblygu ei gyflogadwyedd yn bennaf. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau FfCChC a dyfarniadau perthynol (e.e. Agored, Rhwydwaith y Coleg Agored Cenedlaethol) a Gwobr y Celfyddydau ar lefel Efydd, Arian ac Aur.
C3: Gwirfoddoli'n rheolaidd fel llwybr i waith	Mae'r cleient yn gwirfoddoli mewn lleoliad diwylliannol am o leiaf awr yr wythnos am o leiaf 4 wythnos, a bwriedir i hyn ddatblygu ei gyflogadwyedd. Dylai cyrff diwylliannol weithio gyda rhaglenni cefnogi cyflogadwyedd, asiantaethau cymunedol a phartneriaid eraill i nodi a chefnogi cyfranogwyr addas. Mae gwirfoddoli yn cynnwys bancio amser y bwriedir iddo ddatblygu cyflogadwyedd. Dylai'r cleient fancio o leiaf un awr yr wythnos am gyfnod o 4 wythnos o leiaf.
C4: Cwblhau profiad gwaith	Mae'r cleient yn cwblhau profiad gwaith mewn sefydliad diwylliannol, sy'n para o leiaf 16 awr yr wythnos am bythefnos. Dylai cyrff diwylliannol weithio gyda rhaglenni cefnogi cyflogadwyedd, asiantaethau cymunedol a phartneriaid eraill i nodi a chefnogi cyfranogwyr addas.
C5: Sgiliau digidol gwell	Mae'r cleient wedi cael ei gefnogi i ddatblygu ei sgiliau digidol drwy gwblhau cwrs TG neu feddalwedd cydnabyddedig ac achrededig megis ECDL, neu sgiliau digidol achrededig eraill e.e. drwy Agored neu Rwydwaith y Coleg Agored. Gallai enghreifftiau gynnwys hyfforddiant TGCh (yn bennaf drwy lyfrgelloedd cyhoeddus), a chymryd rhan mewn rhaglenni treftadaeth ddigidol (e.e. Casgliad y Werin Cymru).

Dangosydd

Diffiniad

C6:

Agwedd well tuag at ddysgu'n ffurfiol

Mae'r cleient yn dangos gwelliant mesuradwy yn ei agwedd tuag at ddysgu'n ffurfiol, a chyrhaeddiad o bosibl, drwy ymgysylltu â diwylliant. Gellir darparu tystiolaeth o berfformiad academiaidd gwell a chyflwyno adroddiad arno hefyd. Dylai tystiolaeth gael ei darparu gan yr ysgol yn hytrach na'r cleient ei hun. Mae cyrff diwylliannol yn gweithio gydag ysgolion, asiantaethau cymunedol a chyrff eraill (e.e. unedau atgyfeirio) er mwyn nodi cyfranogwyr addas megis unigolion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Gallai gweithgareddau gynnwys clybiau gwaith cartref, prosiectau pontio a gweithgareddau gwyliau a rhaglenni megis Diwrnod Meddiannu a Hyrwyddwyr Ifanc sydd â'r prif nod o rymuso pobl ifanc ac ymgysylltu â nhw.

C7:

Y gallu i reoli eu lles meddyliol ac iechyd corfforol yn well

Mae cleientiaid yn rhoi gwybod bod ganddynt strategaethau rheoli gwell ar gyfer eu lles meddyliol ac/neu'n cael cymorth i'w helpu i wella eu hiechyd corfforol. Gallai enghreifftiau gynnwys cynlluniau atgyfeirio / rhagnodi i feddygon teulu sy'n defnyddio gweithgareddau diwylliannol, gwaith hel atgofion / gwaith mewn cartref gofal sy'n defnyddio gweithgareddau diwylliannol, cyfranogiad diwylliannol fel gweithgaredd therapiwtig, cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau corfforol sy'n dod â manteision iechyd (e.e. dawnsio, canu).